



DISGRIFIAD SWYDD

Teitl:	Cynorthwy-ydd Meithrin
Math o gontract/Awr/CALI:	Achlysurol Mae oriau agor y Feithrinfa rhwng 7.30 y.b. - 6.00 y.p.
Graddfa/ Cyflog:	Isafswm Cyflog/ Cyflog Byw Cenedlaethol
Lleoliad:	Meithrinfa Y Gamfa Wen, Campws Caerfyrddin
Yn adrodd i:	Rheolwr y Feithrinfa

Archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS): Bydd y swydd hon, yn sgil ei natur, ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau, yn destun archwiliad "Manwl" gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Canolbwynt swydd y Cynorthwy-ydd Meithrin fydd darparu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, lle gofalar am blant mewn awyrgylch diogel a hapus gyda'u hanghenion unigol yn cael eu diwallu, a dulliau blaengar yn cael eu gweithredu er mwyn cyfoethogi datblygiad pob plentyn unigol o fewn y grŵp.

Adeiladwyd meithrinfa Y Gamfa Wen i'r pwrpas ac mae'n cynnig amgylchedd braf, cyfeillgar ac ysgogol i blant o amrywiol gefndiroedd. Mae ganddi gysylltiadau cryf ag Ysgol Plentynod Cynnar, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant sy'n enwog ar draws Cymru am ei harbenigedd. Mae'r Gamfa Wen yn derbyn plant o 0 i 5 oed.

Y Gymraeg fydd y prif gyfrwng cyfathrebu, ond mae'r Gamfa Wen yn annog, yn hyrwyddo ac yn cynnal cyfle cyfartal ac amrywiaeth.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Gweithio fel aelod effeithiol a dibynadwy o'r Feithrinfa.
- Ymgymryd â dyletswyddau yn unol â chyfarwyddyd Rheolwr y Feithrinfa a Dirprwy Reolwr y Feithrinfa.
- Ymgymryd â dyletswyddau gofal plant yn ddyddiol mewn dull gofalgarn a phroffesiynol ac yn unol â pholisïau'r Brifysgol, gan fabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad y plant a darparu gofal o'r safon uchaf i bob plentyn.
- Cynllunio a threfnu gweithgareddau chwarae neu ddysgu er mwyn cwrdd ag anghenion plant penodol yn unol â chynllun pendant a chan ddefnyddio adnoddau a glustnodwyd.
- Arwain a chymryd rhan mewn gweithgareddau – yn y cylch, mewn grwpiau a chwarae yn yr awyr agored
- Sicrhau cyfarch a chroesawu'r plant gyda chynhesrwydd a dealltwriaeth
- Llofnodi cofnodion y dyddiadur a'r gofrestr, gan gynnwys cofrestr yr uned, gan fod yn gyfrifol am roi gwybod faint o blant sy'n bresennol.
- Arolygu, gwerthuso a monitro plant yn eu huned, gan ddarparu nodiadau a sylwadau ar ddiwedd y diwrnod.
- Cwblhau cofnodion meddygol fel y bo'n briodol
- Helpu plant yn yr ystafell ymolchi a sicrhau na fydd unrhyw un heb awdurdod yn ymgymryd â dyletswydd o'r math hwn.

- Cefnogi Rheolwr a staff y Feithrinfa i sicrhau cyflawni athroniaeth Y Gamfa Wen.
- Cyfathrebu â'r holl blant mewn ffordd briodol a gofalgwr ac yn unol ag egwyddorion cyfle cyfartal.
- Cyfathrebu'n effeithiol ac yn broffesiynol gyda chydweithwyr o fewn Y Gamfa Wen ac adrannau cysylltiol Y Drindod Dewi Sant.
- Cyfathrebu â rhieni/gwarcheidwaid mewn ffordd broffesiynol a chadarnhaol bob amser.
- Mynychu cyfarfodydd staff gan gyfrannu'n gadarnhaol a pharchu barn aelodau eraill y tîm.
- Helpu gyda threfniadau effeithiol a phriodol i'r Feithrinfa
- Dangos menter i ddatblygu ac annog plant
- Gwneud penderfyniadau llai pwysig yn unol â gweithdrefnau sefydledig.
- *Gofynion cyfyngedig o ran gwneud penderfyniadau ar wahân i'r rheini sy'n ymwneud â gofal a diogelwch y plant a gweithgareddau chwarae. Y Rheolwr neu'r Dirprwy Reolwr fydd yn gwneud penderfyniadau mwy pwysig*
- Arddangos menter wrth awgrymu datblygiadau neu welliannau i weithgareddau'r Gamfa Wen
- Arddangos y gallu i ddeall a dilyn cyfarwyddiadau
- Talu sylw manwl iawn i'r gofynion corfforol sy'n gysylltiedig â chodi babanod a phlant bach.
- Bod yn arbennig o sensitif i anghenion babanod a phlant ifanc dan ofal Y Gamfa Wen.
- Sicrhau y cedwir Y Gamfa Wen yn ddiogel, yn lân, yn dwt ac yn daclus er mwyn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch.
- Gosod esiamp i blant ynghylch taclusrwydd a pharch at eraill ac offer.
- Sicrhau bod Y Gamfa Wen yn amgylchedd deniadol, croesawgar ac ysgogol i blant.
- Ymgymryd â dyletswyddau domestig o fewn y Feithrinfa e.e. diheintio offer bwydo, glanhau cyffredinol yn unol â gofynion hylendid y Feithrinfa.
- Sicrhau bod bwyd a diod yn cael ei baratoi a'i storio'n unol â pholisïau hylendid bwyd a pholisïau'r Brifysgol. (Canolfan yr Halliwell fydd yn gyfrifol am baratoi'r prif brydau).
- Sicrhau bod cynnyrch gwastraff yn cael ei waredu mewn ffordd briodol ac amserol.
- Sicrhau bod defnyddiau glanhau'n cael eu storio'n ofalus ac yn briodol.
- Arddangos, gyda sensitifrwydd, ofal bugeiliol ac ystyriaeth o'r holl blant o fewn Y Gamfa Wen gan sicrhau bod lles y plant yn hollbwysig.
- Bod yn oddefgar â rhieni sy'n gadael plant dan ofal Y Gamfa Wen.
- Cefnogi aelodau newydd o staff a darparu arweiniad ar y drefn ddyddiol
- Bod yn gefnogol ac, yn unol â'r cyfarwyddyd, ymgymryd â dyletswyddau neu weithgareddau sy'n ysgogi'r plant dan eich gofal ac sy'n annog y profiad dysgu.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyflawni pob cyfrifoldeb perthnasol o ran lechyd a Diogelwch.
- Glynu wrth holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol.
- Meddu ar allu i addasu i newid a chael gallu i ennill sgiliau newydd a pherthnasol trwy gymryd cyfrifoldeb priodol am eich datblygiad personol a phroffesiynol eich hun.
- Cefnogi a hyrwyddo ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd a chyflawni dyletswyddau mewn modd moesegol a chyfrifol.
- Gweithredu'n unol â'r safonau a ymgorfforir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.

D.S. Hwn yw'r disgrifiad swydd sy'n gymwys ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y neilltuir dyletswyddau o bryd i'w gilydd sy'n briodol i'r raddfa a'r swydd nad ydynt o natur sylweddol barhaus i effeithio ar raddfa'r swydd.

MANYLEB YR UNIGOLYN		
	Hanfodol	Dymunol
Addysg a Chymwysterau	a) Cymhwyster Lefel 3 mewn gofal plant, a gydnabyddir gan 'Gofal Cymdeithasol Cymru'	
Profiad, Galluoedd a Sgiliau	b) Profiad o weithio gyda phlant ifanc c) Medru gweithio'n effeithiol ac mewn ffordd sensitif gyda phlant ifainc a babanod d) Atyniad cryf at waith gyda phlant ifanc e) Sgiliau rhyngpersonol da f) Sgiliau cyfathrebu rhagorol g) Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. h) Y gallu i weithio'n effeithiol yn unol â'r cyfarwyddyd ac weithiau ar eich menter eich hun	i) Profiad o weithio mewn cyd-destun gofal
Anghenion arall	j) Y gallu i ddangos hunan gymhelliad k) Dangos parch at ystod amrywiol o bobl a diwylliannau. l) Y gallu i weithio'n effeithiol fel unigolyn, fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill m) Cydnabod yr angen am gyfrinachedd priodol a dangos hynny n) Bod ag agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu a datblygu personol o) Medru gweithio'n hyblyg ac yn barod i wneud hynny yn ystod oriau agor y Meithrinfa	

Er eich lles eich hun, dylech nodi'n fanwl yn eich cais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir. Fe'ch anogir i ddarparu enghreifftiau perthnasol a phenodol, (o'r gweithle, gwaith gwirfoddol neu waith yn y gymuned, neu unrhyw sefyllfa briodol arall) fel y gall y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer weld yn glir ble mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.